**Agenda**

**ELL 08-01(agd)**

**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Dyddiad: 9 Mai 2001

Amser: 2.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Agenda**

**Eitem 1: Adroddiad Gweinidog y Cynulliad (45 munud)**

***Papur: ELL 08-01(p.1)***

Dyma adroddiad misol i'r Pwyllgor ynghylch materion, yn cynnwys eitemau y gofynnodd yr Aelodau cael eu cynnwys, y mae'r Gweinidog yn ymdrin â hwy ar hyn o bryd. Anfonir yr adroddiad at yr Aelodau ar y prynhawn dydd Llun cyn cyfarfod y Pwyllgor, er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl gyfoes. Mae'r adroddiad yma hefyd yn cynnwys Dadansoddiad o Gyllid Ysgolion yng Nghymru ar gyfer

2000-01 ac hefyd cymhariaeth a Lloegr; gwaith a wnaed ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw hwn.

**Eitem 2: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Trafod Thema Allweddol – Llywodraethu – yr Athro Mike Shattock (10 munud) a'r Athro Keith Robbins ar ran Addysg Uwch Cymru (10 munud), cwestiynau a thrafodaeth (40 munud)**

***Papur: ELL 08-01(p.2) ac ELL 08-01(p.3)***

Bydd yr Athro Mike Shattock, Athro Ymweliadol ym Mhrifysgol Llundain (Canolfan Astudiaethau Addysg Uwch) yn cyflwyno trafodaeth ar y thema Llywodraethu a bydd yr Athro Keith Robbins, Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, yn dilyn ar ran Addysg Uwch Cymru. Bydd cyfle ar ôl y cyflwyniadau i ofyn cwestiynau a thrafod.

| |
|---|
| **Bydd egwyl am 15 munud** |

**Eitem 3: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Trafod Thema Allweddol – Ymchwil - Dr John Taylor (10 munud) a'r Athro Syr Brian Smith ar ran Addysg Uwch Cymru (10 munud), cwestiynau a thrafodaeth (40 munud)**

***Papur: ELL 08-01(p.4) ac ELL 08-01(p.5)***

Bydd Dr John Taylor, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Cynghorau Ymchwil yn cyflwyno trafodaeth ar y thema Ymchwil. Bydd yr Athro Syr Brian Smith, Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd yn dilyn gyda chyflwyniad byr ar yr un thema ar ran Addysg Uwch Cymru. Bydd cyfle ar ôl y cyflwyniadau i ofyn cwestiynau a thrafod.

**Eitem 4: Adroddiad Cynnydd a'r Flaenraglen Waith Strategol(10 munud)**

**Papur: ELL 08-01(p.6) a (p.7)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 9.9, o bryd i'w gilydd rhaid i bob pwyllgor pwnc hysbysu'r Cynulliad o'i raglenni, ynghyd ag adrodd ar y cynnydd a wnaed wrth eu cyflawni. Mae gan y Pwyllgor gyfle i gyflwyno'u sylwadau ar yr adroddiad cynnydd, ynghyd â'r Flaenraglen Waith Strategol ddiwygiedig.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod ar 4 Ebrill**

***Papur: ELL 07-01(min*)**

Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2001.

**Papurau i'w Nodi**

**Papur i'w Nodi: Adolygiad Polisi – Darparu Llefydd mewn Ysgolion *Papur: ELL 08-01(p.8)***

Bydd gan y Pwyllgor cyfle i ystyried adroddiad ar gynnydd yr adolygiad ac hefyd adroddiad diweddar a pharatowyd gan Y Comisiwn Archwilio.

**Papur i'w Nodi: Cylch Gorchwyl Estyn (2001- 02) oddi wrth y Cynulliad**

***Papur: ELL 08-01(p.9)***